MAE'R GYFRAITH YN NEWID 1AF HYDREF 2007

THE LAW IS CHANGING ON 1ST OCTOBER 2007



CYNNWYS

Pam bod y gyfraith yn newid?	03
Beth sydd angen imi ei wneud i gydymffurfio?	04
Sut y gallaf baratoi fy staff?	05
Sut ydw i'n gofyn am brawf oedran?	06
Sut y caiff y newid yn y gyfraith ei orfodi?	07
Ble y gallaf gael help a chymorth?	08

CONTENTS

Why is the law changing?
What do I need to do to comply?
How can I prepare my staff?
How do I ask for proof of age?
How will the change in law be enforced?
Where can I get help and support?

MAE'R GYFRAITH YN NEWID

O 1af Hydref 2007, bydd gwerthu cynhyrchion tybaco i unrhyw un o dan 18 oed yng Nghymru a Lloegr yn erbyn y gyfraith. Bydd y newid yn cynnwys sigaréts, sigarau, tybaco rhydd a phibau ynghyd a phapurau rholio a werthir dros y cownter a thrwy beiriannau gwerthu.

PAM BOD Y GYFRAITH YN NEWID?

Mae'r rhan fwyaf o oedolion sy'n gaeth i dybaco yn dechrau ysmygu yn eu harddegau. Mae'r gyfraith yn newid i helpu i atal plant a phobl ifanc rhag dod yn gaeth a phrofi peryglon iechyd difrifol ysmygu.

Drwy ddewis i werthu tybaco mae'n rhaid i chi gydymffurfio â nifer o ddyletswyddau cyfreithiol ac un ohonynt yw peidio â gwerthu cynhyrchion i'r rhai o dan yr isafswm oedran.

Bydd y rhesymau dros hyn yn glir o gofio:

- y bydd un o bob dau ysmygwr gydol oes yn cael eu lladd gan eu dibyniaeth.
- Po ifancaf y bydd rhywun yn dechrau ysmygu y mwyaf tebygol yw y byddant yn cael eu lladd gan eu dibyniaeth.
- Bydd rhywun fydd yn dechrau ysmygu yn 15 oed deirgwaith yn fwy tebygol o farw o ganser o ganlyniad i ysmygu na rhywun sy'n dechrau ysmygu yng nghanol eu 20au.

THE LAW IS CHANGING

From 1st October 2007 it will be against the law to sell tobacco products to anyone under the age of 18 in England and Wales. The change will include cigarettes, cigars, tobacco for roll-your-own and pipes as well as rolling papers sold both over the counter and through vending machines.

WHY IS THE LAW CHANGING?

Most addicted adult smokers began smoking as teenagers. The law is changing to help prevent children and young people from becoming addicted and experiencing the serious health dangers of smoking.

By choosing to sell tobacco you have to comply with a number of legal duties, one of which is not to sell products to those under the minimum age.

The reasons for this become clear when you consider that:

- One in two lifelong smokers will be killed by their addiction.
- The younger a smoker starts the more likely they are to be killed by their addiction.
- Someone who starts smoking at 15 is three times more likely to die from cancer due to smoking than someone who starts smoking in their mid-20s.

BETH SYDD ANGEN I MI EI WNEUD I GYDYMFFURFIO? (Y GOFYNION CYFREITHIOL)

O 1af Hydref 2007:

- Ni ddylech werthu cynhyrchion tybaco i unrhyw un o dan 18 oed. Bydd hyn yn disodli'r gyfraith gyfredol sy'n ei gwneud yn anghyfreithlon gwerthu cynhyrchion tybaco i unrhyw un o dan 16 oed.

0Mae'n rhaid i chi newid unrhyw arwyddion (hysbysiad statudol) sydd gennych eisoes gan osod arwydd yn nodi'r cyfyngiad oedran cyfreithiol newydd ar gyfer cynhyrchion tybaco. Dylid gosod yr arwydd mewn rhywle gweledol, lle y gall unrhyw un sy'n dymuno prynu cynhyrchion tybaco ei weld, a chadw at y canllawiau canlynol.

ARWYDDION AR GYFER GWERTHU DROS Y COWNTER

Rydym wedi amgáu arwydd i chi. Os byddwch yn dewis cynhyrchu arwydd eich hun neu ddefnyddio arwydd arall, er mwyn cydymffurfio â'r gyfraith:

- Mae'n rhaid iddo nodi 'Mae'n anghyfreithlon gwerthu cynhyrchion tybaco i unrhyw un o dan 18 oed'.
- Mae'n rhaid iddo fod o leiaf maint A3 (420mm x 297mm) â llythrennau sydd o leiaf 36mm o uchder.

Gellir llwytho arwydd i lawr yn www.tobaccoagechange.co.uk/cymraeg.

ARWYDDION AR GYFER GWERTHU O BEIRIANNAU GWERTHU

Mae'n rhaid i beiriannau gwerthu tybaco ddangos arwydd wedi'i ddiweddaru hefyd. Er mwyn cydymffurfio â'r gyfraith mae'n rhaid i'ch arwydd:

- Nodi, 'Dim ond pobl sy'n 18 oed neu'n hŷn a gaiff ddefnyddio'r peiriant hwn'.
- Bod o leiaf 60mm x 100mm, gyda llythrennau sydd o leiaf 6mm o uchder.
- Bod yn gwbl weledol i unrhyw un sy'n defnyddio'r peiriant.

Dylai eich cyfanwerthwr tybaco neu ddarparwr peiriant gwerthu allu rhoi arwydd i chi os nad ydynt wedi gwneud hynny eisoes.

WHAT DO I NEED TO DO TO COMPLY? (THE LEGAL REQUIREMENTS)

From 1st October 2007:

- You must not sell tobacco products to anyone under the age of 18. This will replace the current law where it is illegal to sell tobacco products to anyone under the age of 16.
- You must replace any existing signage (statutory notice) with a sign stating the new legal age restriction for tobacco products. The sign should be placed in a visible position, where it can be seen by anyone wishing to buy tobacco products, and keep to the following guidelines.

SIGNAGE FOR OVER THE COUNTER SALES

We have enclosed a sign for you to use. If you choose to produce your own or use another, to comply with the law:

- It must state, 'It is illegal to sell tobacco products to anyone under the age of 18'.
- It must be at least A3 in size (420mm x 297mm) and have letters at least 36mm high.

A sign is available to download from www.tobaccoagechange.co.uk

SIGNAGE FOR VENDING MACHINE SALES

All tobacco vending machines must also display an updated sign. To comply with the law, your vending machine sign:

- Must state, 'This machine is only for the use of people aged 18 or over'.
- Must be at least 60mm x 100mm, with letters at least 6mm high.
- Must be clearly visible to anyone using the machine.

Your tobacco wholesaler or vending machine provider should be able to provide you with a sign if they haven't done so already.

PARATOI EICH STAFF

Fel manwerthwr rydych fwy na thebyg eisoes yn brofiadol o ran ymdrin â materion sy'n gysylltiedig ag oedran ar gyfer gwerthu tybaco a chynhyrchion eraill sydd â chyfyngiad oedran. Fodd bynnag, gyda'r oedran gwerthu tybaco yn codi efallai y byddwch yn profi rhywfaint o wrthwynebiad newydd gan eich cwsmeriaid ifancach.

Gallai hyfforddi eich staff o ran y gyfraith, a sut i gwestiynu a gwrthod gwerthu, fod yn ddefnyddiol iawn. Dyma rai enghreifftiau o'r hyn y gallech ei wneud:

- Er mwyn osgoi troseddu, dylech ddweud wrth eich staff am y newid yn y gyfraith.
- Efallai y byddwch yn dymuno cadw cofnod o'r hyfforddiant a gofyn i'r aelod o staff lofnodi i ddweud eu bod wedi ei ddeall.
- Dylid hysbysu staff y gallent fod yn bersonol atebol os byddant yn gwerthu i unrhyw un o dan 18 oed.

Mae'r daflen wybodaeth amgaeëdig yn cynnwys rhagor o gyngor i'ch helpu chi a'ch cyflogeion i gydymffurfio â'r newid yn y gyfraith.

PREPARING YOUR STAFF

As a retailer you are probably already experienced in tackling age-related issues for the sale of tobacco and other age-restricted products. However, withthe age of sale for tobacco increasing you may encounter some new resistance from your younger customers.

Training your staff on the law, and how to question and refuse sales, may be very helpful. Here are some examples of what you could do:

- To avoid committing an offence, you should tell your staff about the change in the law.
- You may wish to keep a record of the training and ask the member of staff to sign to say that they have understood it.
- Staff should be advised that they might be personally liable if they sell to anyone under the age of 18.

The enclosed information sheet contains further advice to help you and your employees abide by the change in law.

GOFYN AM BRAWF OEDRAN

Mae'n bwysig eich bod chi a'ch staff yn gwybod sut i ofyn am brawf oedran a beth i'w wneud wrth drin cwsmer trafferthus. Gallai rheoli'r sefyllfa yn dda wneud bywyd yn llawer haws.

- **Dangoswch yr arwyddion cywir** ar gownter eich siop neu wrth ymyl y cownter lle y gall cwsmeriaid eu gweld. Gobeithio y bydd hyn yn atal cwsmeriaid o dan oedran rhag ceisio prynu yn y lle cyntaf a bydd yn eich helpu i'w hatgoffa mai dilyn y gyfraith rydych yn ei gwneud.
- **Byddwch yn ddoeth ac yn gwrtais.** Gall cael eich gwrthod godi cywilydd. Ymddiheurwch a pheidiwch â'u cythruddo hwy na gwylltio eich hun.
- **Peidiwch â chyffroi.** Os byddant yn gwylltio, arhoswch yn broffesiynol a daliwch eich tir.
- **Dylech osgoi beio**. Esboniwch eich bod yn rhwym yn gyfreithiol i ofyn am brawf oedran ac nad yw'n unrhyw beth personol.
- **Byddwch yn ddiogel.** Os bydd cwsmer yn dod yn ymosodol neu'n fygythiol yn gorfforol tynnwch eich hun o'r sefyllfa a galwch am help. Mewn sefyllfaoedd eithafol ffoniwch yr Heddlu.

Y cyngor gorau bob tro yw gofyn am brawf oedran oni bai eich bod yn sicr bod yr unigolyn yn edrych 21 oed o leiaf. Bydd dim ots gan bobl o oedran cywir ddangos eu prawf adnabod â lluniau os gofynnir iddynt yn gwrtais.

Oni bai eich bod yn edrych ar basbort neu drwydded yrru â llun, cofiwch chwilio am y logo hologram PASS bob tro wrth edrych ar gerdyn prawf oedran.

ASKING FOR PROOF OF AGE

It is important for you and your staff to know how to ask for proof of age and what to do when dealing with a difficult customer. Managing it well could make life much easier.

- **Clearly display the correct signage** on or near your shop counter where it is visible to customers. Hopefully this will deter under-aged customers from attempting to buy in the first place and will help you to remind them that you are simply following the law.
- **Be tactful and polite**. Refusal can be embarrassing. Apologise and don't antagonise them or get annoyed yourself.
- **Be calm**. If they get angry, stay professional and stand your ground.
- **Avoid blame**. Explain that you're legally obliged to ask for proof of age and that it is nothing personal.
- **Be safe**. If a customer becomes physically aggressive or threatening remove yourself from the situation and call for help. In extreme situations call the Police.

The best advice is always to ask for proof of age unless you are convinced the person looks at least 21. People of the correct age will not mind showing their photo ID if asked politely.

Unless you are looking at a passport or photo driving licence, always look for the PASS hologram logo when checking a proof of age card.

MATHAU O BRAWF Â LLUNIAU SY'N DDERBYNIOL

ACCEPTABLE PHOTO ID

Pasbort
Passport

Trwydded Yrru â llun
Photo Driving Licence

Citizencard
Citizencard

Cerdyn Validate
Validate Card

Cerdyn 'Prove It' Portman
Portman 'Prove it' Card

Logo Hologram PASS
PASS Hologram Logo

Er mwyn helpu, bydd yr Adran Iechyd yn atgoffa pobl - yn enwedig rhai yn eu harddegau - drwy ymgyrch gyfathrebu, o'r angen i gario prawf oedran o gynllun PASS achrededig.

In order to help, the Department of Health will be reminding people – particularly teenagers – via a communications campaign, of the need to carry proof of age from an accredited PASS scheme.

SUT Y CAIFF Y NEWID YN Y GYFRAITH EI ORFODI?

Bydd Swyddogion Safonau Masnach yn parhau i orfodi'r gyfraith sy'n gysylltiedig â gwerthu cynhyrchion tybaco i ddefnyddwyr sydd o dan odran.

Y gosb ar gyfer gwerthu cynhyrchion tybaco i rywun o dan 18 oed o 1af Hydref 2007 yw dirwy o hyd at £2,500.

Gallai'r sawl a oedd yn gwerthu a pherchennog y busnes fod yn atebol am unrhyw werthiannau anghyfreithlon, hyd yn oed os credwyd bod y cynnyrch wedi'i brynu ar ran oedolyn, neu os oedd yr unigolyn yn edrych fel petaent dros 18 oed.

Gall methu ag arddangos yr hysbysiad statudol arwain at ddirwy o hyd at £1,000. Mae hyn yn gymwys i gynhyrchion a gaiff eu gwerthu dros y cownter ac mewn peiriannau gwerthu.

Mae cyngor pellach ar gael o'ch adran Safonau Masnach. Am ragor o wybodaeth ewch i www.tradingstandardswales.org.uk

HOW WILL THE CHANGE IN LAW BE ENFORCED?

Trading Standards Officers will continue to enforce the law relating to the sale of tobacco products to under-age consumers.

The penalty for selling tobacco products to someone under the age of 18 from 1st October 2007 is a fine of up to £2,500.

Both the sales person and the business owner could be liable for any illegal sales, even if it was believed that the purchase was being made on behalf of an adult, or if the person looked like they were over 18.

Failure to display the statutory notice can result in a fine of up to £1,000. This applies both to over the counter and vending machine sales.

Further advice is available from your Trading Standards department. For more information visit www.tradingstandards.gov.uk/business/business.cfm

CYMORTH A CHEFNOGAETH

Rydym yn deall y bydd y newid hwn yn effeithio ar y ffordd y byddwch yn rhedeg eich busnes ac am ei gwneud mor hawdd â phosibl i chi ddilyn y newid yn y gyfraith.

Os oes gennych unrhyw gwestiynau, neu os hoffech gael rhagor o wybodaeth, ewch i www.tobaccoagechange.co.uk/cymraeg neu cysylltwch â'ch adran Safonau Masnach leol.

HELP AND SUPPORT

We understand this change will affect the way you run your business and want to make it as easy as possible for you to follow the change in law.

If you have any questions, or would like more information, please visit www.tobaccoagechange.co.uk or contact your local Trading Standards department.

GWEFANNAU DEFNYDDIOL ERAILL

Safonau Masnach
Siop un stop ar gyfer gwybodaeth am ddiogelu defnyddwyr yn y DU.
www.tradingstandardswales.org.uk

LACORS
Yn gyfrifol am oruchwylio gwasanaethau rheoleiddio awdurdodau lleol a gwasanaethau cysylltiedig.
www.lacors.gov.uk

Cynllun PASS
Cynllun gwarant cenedlaethol y DU ar gyfer cardiau sy'n profi oedran. **www.pass-scheme.org.uk**

OTHER WEBSITES YOU MAY FIND USEFUL

Trading Standards
A one-stop shop about consumer protection information in the UK.
www.tradingstandards.gov.uk

LACORS
Responsible for overseeing local authority regulatory and related services.
www.lacors.gov.uk

PASS Scheme
The UK's national guarantee scheme for proof-of-age cards. **www.pass-scheme.org.uk**